Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

29 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Dull y Dyfodol ar gyfer Cyllideb Rheoli Adnoddau Naturiol:comisiynu i gefnogi cydweithrediad a chyd-gynhyrchu yn y cyd-destun polisi newydd yng Nghymru** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Papur B B 58.16** |
| **Noddir y Papur gan:** | Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | Rhian Jardine, Emyr Thomas, Steve Cook |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | I gadarnhau'r cyfeiriad strategol ar gyfer model cyllid grant Cyfoeth Naturiol Cymru o 2018 ymlaen |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder – efallai nad yw pob pennawd yn addas ar gyfer y pwnc | **Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:**<br>**Edrych ar y tymor hir:**<br>Bydd y dull hwn yn cyfrannu at weithredu egwyddorion cynaliadwyedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan Gyfoeth Naturiol Cymru.<br>**Mabwysiadu dull integredig:**<br>Bydd y dull comisiynu a osodwyd yn y papur hwn yn rhoi sylw at y ffyrdd 'integreiddio' o weithio sy’n rhan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br>Bydd cyllid yn cael ei roi i gynlluniau sy'n rhoi sylw at gydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:**<br>Mae cyllid grant yn gydweithredol gan fod y partneriaid allanol yn darparu o leiaf hanner cyfanswm y costau prosiect a byddwn yn gweithio'n gydweithredol i gyflawni amcanion a rennir.<br>**Atal problemau rhag digwydd:** Bydd cyllid yn cael ei neilltuo i gynlluniau sy'n dangos dull ataliol. |

DRAFT

## Problem

1. Mae Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffurfio rhan o fframwaith polisi a deddfwriaeth newydd a radical yng Nghymru sy'n bwriadu bod yn drawsffurfiol, gan sbarduno newid hirdymor. Mae'n gofyn am ffyrdd gwahanol o gydweithredu a chyd-gynhyrchu ac yn ein herio i feddwl yn wahanol am sut yr ydym yn gweithio. Mae'r tirlun deddfwriaethol newydd hwn yn gofyn am ailfeddwl athroniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a'i ymagwedd tuag at gyllido'n gyffredinol a grantiau'n benodol yng nghyd-destun yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, Datganiadau Ardal ac Asesiadau Llesiant, yn ogystal â'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, Cynllun Morol Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

2. Mae'r papur hwn yn gosod cynnig ar gyfer y rownd gynllunio gorfforaethol nesaf sy'n ein symud o fodel cyfredol 'cyllid tuag allan' (h.y. cyllid sy'n mynd allan o Gyfoeth Naturiol Cymru i sefydliadau eraill drwy ddulliau gwahanol megis rhoi grantiau a memoranda cytundeb) i fodel comisiynu sy'n ymwneud â chydweithrediad a chyd-gynhyrchu dyfnach. Mae'r rowndiau cyllid grant cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2018 ac mae angen eglurder arnom ar y cyfeiriad strategol y tu hwnt i'r gwaith hwn.

3. Mae'r model comisiynu sydd wedi'i gynnig yn seiliedig ar syniadau gan gyrff blaengar megis y New Economics Foundation (NEF). Nid yw hwn wedi'i ragweld fel rhywbeth i gymryd lle dulliau gweithdrefnol megis grantiau, cytundebau cyllido neu gaffael. Yn hytrach, fframwaith llywodraethu trosfwaol ydyw a fydd ag angen y dulliau hyn o hyd ond gydag addasiadau priodol.

4. Gellir dod o hyd i ddiffiniadau termau megis 'comisiynu', 'cyllid tuag allan', 'cyd-gynhyrchu' a.y.b yn Atodiad 1. Noder nad yw cyllid tuag allan a dalwyd i berchnogion tir fel cytundebau rheoli a gysylltir ag amddiffyn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gynwysedig yng ngorchwyl y papur hwn. Maent yn seiliedig ar ddeddfwriaeth ac yn ddibynnol ar ystyriaeth ar wahân sy'n gysylltiedig â phwerau newydd yn Neddf yr Amgylchedd.

## Cefndir

5. Ym mis Gorffennaf 2014, lansiwyd rownd gyntaf cynllun grantiau Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi prosiectau a arweiniwyd gan sefydliadau eraill sy'n darparu canlyniadau ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru. Ym mis Mehefin 2015, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru lansio rownd dau ar gyfer prosiectau cystadleuol sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth, cadwraeth a chanlyniadau cymunedol. Bydd yr holl brosiectau a gyllidwyd – oddeutu 170 ohonynt – yn cael eu cwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2018. Dros y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2018, bydd y ddwy rownd yn gweld ymrwymiad o bron i £9 miliwn i gefnogi prosiectau cymwys er mwyn diwallu ein canlyniadau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

6. Mae Atodiad 2 yn darparu rhywfaint o wybodaeth bellach a manylion arfarniadau i ddangos enghreifftiau o'r math o weithgaredd y mae cyllid tuag allan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cefnogi yn y gorffennol.

7. Gwnaethom sefydlu strwythur llywodraethu ar gyfer ein gwaith cyllido yn ôl yn 2014 gydag aelodaeth ar draws y busnes. Mae hyn yn darparu'r trosolwg a'r canllawiau ar draws y sefydliad ar gyfer pob llif o gyllid tuag allan gan gynnwys, er enghraifft, Memoranda o Gytundeb o amrywiaeth fawr o reolwyr cyllideb unigol Cyfoeth



DRAFT

Naturiol Cymru. Mae'r bwrdd hwn yn sicrhau bod yr holl gyllid a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei reoli mewn ffordd gydlynol ac effeithlon, drwy gynnwys y gwersi a ddysgwyd gan archwiliadau mewnol ac Ewropeaidd ar ein grantiau a'n rhaglenni sydd wedi'u cyllido gan Ewrop.

8. Mae cyllid grant wedi bod yn effeithiol iawn wrth ddarparu llu o fuddion lluosog, gan ysgogi adnoddau ariannol o ran cyllid arall ar gyfer ymgeiswyr ac adnoddau dynol o ran profiadau gwirfoddoli. Mae hefyd wedi sicrhau lefel dda o rannu costau, gan fod amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyd-fynd yn dda gydag amcanion cyrff eraill. Mae cyfraddau ymyrraeth nodweddiadol ar gyfer ein rhaglen a ariennir gan grant yn 50% ar gyfartaledd, h.y. mae pris darparu un allbwn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sefydliad a ariennir gan grant. Mae hyn yn golygu defnydd effeithiol iawn o arian. Mae’n golygu y gellir ymestyn cyllidebau lawer ymhellach nag yn yr achosion hynny lle'r ydym yn dibynnu'n unig ar gaffael ar gyfer darparu gwaith amgylcheddol, lle mae 100% yn cael ei wario ar gyflawni pob allbwn.

9. Rydym yn ymwybodol bod adborth o ymgeiswyr yn awgrymu y gall ein prosesau gael eu coethi ymhellach ac fe fyddwn yn cymhwyso dull gwella parhaus er mwyn gweithredu gwelliannau ar gyfer profiadau ein cwsmeriaid. Yn y dyfodol, bydd Datganiadau Ardal yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer ein trafodaethau â phartneriaid posibl, gan sicrhau eu bod wedi cael eu grymuso a chan greu modd o gyflawni canlyniadau llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy’n wirioneddol gydweithredol. Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn cael ein harwain gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau cydymffurfiad â gofynion archwilio a rheoli risg addas.

**<u>Asesiad</u>**

10. Mae'r cyd-destun polisi newydd yn galw am athroniaeth gyllido newydd am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud newidiadau sylweddol o ran y ffordd y mae'n ymwneud ag eraill ar lawr gwlad ac yn eu cynnwys a chydweithio â nhw. Mae hefyd yn gofyn am ddull ataliol. Yn ail, mae'r dull ecosystem a'r cysyniad o reoli addasol yn yr un modd yn gofyn am fabwysiadu'r egwyddorion uchod. Bydd hefyd yn gofyn am ddatblygu a chyd-drefnu grwpiau cydweithredol a rheoli prosiectau er mwyn datblygu gweithgareddau ar gyfer y rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn darparu'r sail dystiolaeth a bydd y Datganiadau Ardal a Pholisi Cenedlaethol Adnoddau Naturiol (NNRP) yn hanfodol wrth ddatblygu dull Cyfoeth Naturiol Cymru.

11. Mae gan hyn oblygiadau uniongyrchol ar gyfer llawer o 'gyllideb tuag allan' Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn y dyfodol, bydd angen inni wneud y canlynol:
    - Gweithio gydag eraill i sicrhau manteision cilyddol yn hytrach na sefydliadau eraill yn gweithio er ein budd ni.
    - Gweithio ar 'lefel ardal' a gallu bod yn hyblyg o ran staff ar y lefel hon ond yn ogystal o fewn cyd-destun strategol ehangach.
    - Edrychwch ar yr hirdymor – mae hyn yn nodi newid o fodel cyllido sy'n canolbwyntio ar allbynnau'n unig.
    - Cael systemau ar waith i werthuso’r gwahaniaeth y mae ein cyllid yn ei wneud wrth gyflawni canlyniadau.
    - Dysgu gydag eraill a dyfeisio ffyrdd o wella'n gyson.

- Cefnogi rhwydweithiau o sefydliadau a rhanddeiliaid lle mae'r rhain yn bwysig wrth sicrhau datrysiadau cynaliadwy.

12. Bydd y polisi newydd yn gofyn am brosesau newydd gan gynnwys:
    - Prosesau cyllido sy'n gallu cael eu haddasu i'r gweithgaredd sy'n cael ei gefnogi a llai o bethau sy'n 'addas i bawb'.
    - Dull cyfannol i risg – mwy o barodrwydd i fabwysiadu 'dull portffolio'. (Gweler diffiniad o dermau.)
    - Gweithdrefnau hawlio a thalu sy'n gymesur: gan adlewyrchu lefel y cyllid a'r risg a bod yn addasol i adlewyrchu'r gweithgaredd penodol a gyllidwyd.
    - Ffocws mwy ar gyllido ar gyfer canlyniadau yn hytrach nag ar gyfer allbynnau. (Gweler diffiniad o dermau am 'Gyllid Canlyniadau'.)
    - Mwy o rannu gwybodaeth fel sail i welliannau a chyd-ddysgu.

13. Bydd hyn yn ein galluogi i:
    - Cefnogi camau gweithredu cyfunol, cydweithredol ar y raddfa gywir.
    - Gweithio gydag eraill yn hytrach na chyfarwyddo eraill.
    - Cyflawni canlyniadau a rennir gan eraill.
    - Cyfuno ein hadnoddau'n fwy effeithiol ag eraill er mwyn sicrhau cynghrair cydlynol ac unedig o sefydliadau sydd oll yn gweithio ar gyfer casgliad sengl o amcanion.
    - Gwir gywain yr arbedion effeithlonrwydd y mae camau gweithredu cyfunol o'r fath yn gallu cynhyrchu.
    - Cynnal mwy o arfarniadau a nodi beth sy'n gweithio a dysgu o hynny.
    - Cael gwybodaeth yn well ar lefel rhaglen.
    - Canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer yr hirdymor.
    - Cyflawni mwy tuag at yr amcanion amgylcheddol, cymdeithasol, llesiant ac economaidd.

**<u>Argymhellion</u>**

Cynigir ein bod ni'n:

14. **Datblygu model comisiynu newydd**, un sy'n adlewyrchu datblygiad cynaliadwy a'r arena polisi newydd yng Nghymru, ac sy'n:
    a) Ymgorffori cyd-gynhyrchiad fel nodwedd ganolog, gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau canlyniadau parhaol yn lle allbynnau un-tro
    b) Dal yr amrywiaeth llawn o ganlyniadau llesiant: amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd
    c) Rhoi grym i bobl.

    Gweler Atodiad 3 ynghylch y gymhariaeth rhwng dealltwriaeth gonfensiynol o gomisiynu a'r hyn a argymhellwyd gan y New Economics Foundation (NEF).

15. **Gweithredu dull o'r fath drwy neilltuo cyllideb ganolog** er mwyn darparu effeithlonrwydd cenedlaethol yn ogystal â hyblygrwydd lleol a rhoi fframwaith llywodraethu trosfwaol ar waith. Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal i ddatblygu a mireinio sut y bydd model comisiynu fel hynny'n edrych. Gosodir amlinelliad rhagarweiniol o sut y gallai hyn weithio yn Atodiad 4.

16. **Efallai y caiff y gyllideb ganolog ei neilltuo fel a ganlyn:**
    - Comisiynu gweithgaredd sy'n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhob ardal yng Nghymru [50%-60% o'r gyllideb]

DRAFT

- Comisiynu gweithgaredd sy'n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel Cymru gyfan [15-20% o'r gyllideb]
- Grantiau bach i gefnogi rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus [5-10% o'r gyllideb]
- Grantiau bach i gefnogi amryw flaenoriaethau annisgwyl wrth iddyn nhw godi [hyd at 5% o'r gyllideb], ond dim ond yn berthnasol *os yw arian yn dod ar gael mewn blwyddyn oherwydd tanwario yng ngweddill y gyllideb gyllido ganolog.*
- Cyllideb Arian Cyfatebol – i gefnogi cynigion mawr a arweinir gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu gan eraill, gyda'r nod o gael mynediad at arian gan brif gyllidwyr [10%-15% o'r gyllideb]

17. Fel rhan o gylchred y cynllun corfforaethol, archwilio safbwyntiau ynghylch sut mae canfyddiadau, gobeithion a phrofiadau o ddulliau cyllido'n gallu cefnogi gweithio cydweithredol orau. Efallai bydd hyn hefyd yn archwilio'r broblem ynghylch pryd mae cyllid cydweithredol yn briodol yn hytrach na defnyddio mathau o grantiau cystadleuol a chaffael fel y dulliau a ffefrir.

18. **Cynnal trosolwg o gyllid tuag allan** trwy gyllidebau lleol a cheisio sicrhau bod y rhain yn cael eu halinio'n briodol â'r fframwaith llywodraethu canolog ar gyfer comisiynu ar gyfer canlyniadau hirdymor.

19. **Y Camau Nesaf**
    - Ymgysylltu â NEF er mwyn mireinio ein dull comisiynu a chyd-gynhyrchu – hydref 2016
    - Trafodaeth/ymgynghoriad mewnol gan gynnwys gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – hydref 2016
    - Gweithdai ar gyfer cwsmeriaid a staff perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru – Chwefror 2017
    - Papur i'r Tîm Gweithredol ynghylch dull arfaethedig, mwy manwl Cyfoeth Naturiol Cymru – gwanwyn 2017
    - Paratoi canllawiau – mis Mawrth i fis Hydref 2017
    - Rhedeg gweithdai hyfforddiant – Tachwedd 2017 i Chwefror 2018

<u>**Risgiau Allweddol**</u>

20. Mae angen i ddulliau newydd fod yn gydnaws â llywodraethu da, atebolrwydd a ffocws ar les y cyhoedd.
21. Mae angen rheoli cyd-gynhyrchu a chydweithrediad er lles y cyhoedd. Mae angen eu rhoi ar waith mewn modd beirniadol.
22. Bydd y cyfoeth o sgiliau gweithio mewn partneriaeth yn sail berthnasol ar gyfer pontio i fodel cyd-gynhyrchu. Mae yna risg, fel canlyniad i rowndiau diweddar o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, bod y gronfa o brofiad hwn wedi lleihau o bosib. Bydd yn bwysig ein bod ni'n asesu hyn ac yn trefnu rhagor o hyfforddiant a gweithgareddau datblygu os oes angen.

<u>**Goblygiadau Ariannol**</u>

23. Mae'r dull hwn yn ceisio cael gwell defnydd o'r cyllid sy'n mynd i sefydliadau eraill er mwyn gwella eu gallu i ddarparu'r canlyniadau a geisir amdanynt gan y cyd-destun polisi newydd yng Nghymru.

<u>**Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**</u>

DRAFT

24. Bydd problemau cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio fel un o'r themâu trawsbynciol wrth weithredu'r dull comisiynu a chyllid grant nesaf gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Mynegai o Atodiadau**

**Atodiad 1 Diffiniad o dermau**

**Atodiad 2 Prosiectau'r gorffennol ac arferion da**

**Atodiad 3 Y gwahaniaeth rhwng comisiynu confensiynol a'r hyn a gynigir gan y New Economics Foundation (NEF)**

**Atodiad 4 Amlinelliad ar gyfer dull comisiynu Cyfoeth Naturiol Cymru**

DRAFT